

<b>ENW'R PWYLLGOR CRAFFU</b>	<b>PWYLLGOR CRAFFU GOFAL</b>
<b>DYDDIAD Y CYFARFOD</b>	<b>13/09/2018</b>
<b>TEITL YR EITEM</b>	<b>Awtistiaeth: Gwasanaethau Anableddau Dysgu</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>Cynghorydd Gareth Roberts</b>

## **CYD- DESTUN**

1. Mae gweledigaeth Gwasanaeth Anabledd Dysgu Gwynedd i'r dyfodol yn canolbwyntio ar gamu ymlaen a galluogi i annog annibyniaeth yr unigolyn. Golyga hyn bod y cymorth gan y Gwasanaeth wedi ei ddylunio i helpu dinasyddion i ganolbwyntio ar eu cryfderau a beth y medrant ei gyflawni yn ddiogel ar eu pennau eu hunain. Mae oedolion gydag awtistiaeth yn aml yn derbyn cefnogaeth gan Wasanaethau ar draws yr Adran, yn bennaf y Gwasanaeth Anableddau o ran anghenion mwy dwys, gwasanaeth Iechyd Meddwl pan mae'r prif angen o ran materion Iechyd Meddwl. Gwasanaeth Oedolion ac Adran Dai o ran materion digartrefedd. Mae'n bwysig fod y gwasanaethau yma yn parhau i gydweithio yn agos er mwyn sicrhau fod oedolion gydag awtistiaeth yn derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth cywir, yn amserol ac yn cyd fynd gyda'u prif angen.
2. Rydym eisiau i Wynedd fod yn Sir lle mae pobl efo anabledd dysgu, yn cynnwys awtistiaeth, yn gallu byw bywydau llawn a sylweddoli eu potensial. Mae hyn yn golygu wynebu'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir iddynt. Drwy ganolbwyntio ar eu llesiant a'u galluogi drwy ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) Cymru, gallwn wella cyfleoedd pobl efo anabledd dysgu yng Ngwynedd i fyw bywydau gweithgar a llawn i gyflawni eu hallbynnau lles.
3. Mae bron i 600 o oedolion gydag anableddau dysgu ar y gofrestr anableddau dysgu yng Ngwynedd, ac mae'r niferoedd wedi bod ar gynnydd. Mae nifer o resymau am y cynnydd yma, sef pobl yn byw yn hŷn, nifer uwch o blant yn trosglwyddo i'r gwasanaeth oedolion, ac mae rhagdybiaethau cenedlaethol yn nodi y bydd y niferoedd yn parhau i gynyddu am gyfnod, a sefydlogi wedyn.
4. Nod y gwasanaeth yw cyflwyno modelau gwasanaeth dilynol sy'n gweithredu fel cam tuag at fwy o annibyniaeth a hybu cynhwysiad cymdeithasol ac integreiddio i'r gymuned leol. Bydd y gefnogaeth mae person yn ei dderbyn, yn cynnwys oedolion gydag awtistiaeth, yn newid fel mae anghenion person yn newid. Fel y mae pobl yn dod yn fwy ynghlwm â'u cymunedau ac yn datblygu eu rhwydweithiau cefnogaeth eu hunain, disgwylir y bydd eu hangen am gefnogaeth gymdeithasol ffurfiol yn lleihau mewn rhai achosion a bydd y gefnogaeth yn cael ei addasu mewn ymateb i'r sefyllfa newidiol.
5. Mae'n rhaid cydnabod y bydd rhai pobl yn parhau i fod angen lefel uchel o gefnogaeth yn y tymor hir a bod angen datblygu sgiliau staff ar draws ein darpariaeth er mwyn diwallu'r anghenion yma yn greadigol, yn cynnwys oedolion gydag awtistiaeth.

## DATBLYGIADAU I'R DYFODOL

### *Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI)*

6. Mae Gwasanaeth Integredig Awtistiaeth Gogledd Cymru wedi ei lansio ym mis Mehefin 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £13 miliwn hyd at 2021 i ddatblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ledled Cymru. Mae hyn oherwydd bod llawer o unigolion awtistig yn disgyn rhwng meini prawf ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu ac felly ni allant gael mynediad i gymorth emosiynol, ymddygiadol, iechyd meddwl isel na sgiliau bywyd.
7. Yn y Gogledd, mae'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ar draws y chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Bydd y Gwasanaeth Integredig Awtistiaeth (GAI) yn darparu gwasanaethau diagnostig oedolion newydd; cefnogaeth gydol oes i unigolion awtistig (plant ac oedolion) eu teuluoedd a'u gofalwyr; cefnogaeth gyda throsglwyddo o ddarpariaeth plant i oedolion a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol. Bydd Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda'r GAI a bydd Gweithiwr Cefnogol penodol ar gyfer Gwynedd o fewn y gwasanaeth.

### *Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS)*

8. Mae bod yn rhan o ystod eang o weithgareddau yn rhan o fywyd cymdeithasol gwerthfawr. Mae'r gofynion sylfaenol i fyw bywyd llawn yn cynnwys y cyfleoedd canlynol:
  - Cymryd rhan yn yr un ystod o weithgareddau a phawb arall
  - Bod ynghlwm a rhannu diddordebau efo pobl eraill
  - Datblygu perthnasau, sgiliau a phrofiad.

Pan nad ydi person efo digon o allu i wneud gweithgareddau arferol yn annibynnol, byddent angen cefnogaeth i gymryd rhan. Er mwyn cyflawni hyn oll felly, defnyddir egwyddorion cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol (PBS) ac 'Active Support'.

Rydym wedi datblygu tîm amlddisgyblaeth tymor byr 'Active Support' i weithio gyda phob darparwr ar draws y sir. Mae Gweithwyr Cefnogol wedi eu hyfforddi yn benodol mewn Active Support a PBS trwy becyn hyfforddi sydd wedi ei rannu i dri rhan sef (a) gweithdy - lle rydym yn deall theori'r pwnc. b) chwarae rôl lle mae gan staff gyfle i ymarfer trwy wneud c) hyfforddiant rhyngweithiol lle mae staff yn dysgu mewn sefyllfa ymarferol yn eu gweithle- cefnogir y rhan yma gyda mentora a hyfforddiant gan hyfforddwyr o fewn y tîm amlddisgyblaethol

### *Achos Un*

Mae Mr A yn derbyn cymorth dau i un ac mae ganddo ymddygiad uwchraddol sy'n dwysáu. Cyn iddo gael cynllun cymorth gweithredol treuliai ei amser yn y tŷ neu ar dripiâu dydd ad hoc. Bellach mae wedi datblygu 20 o dasgau a wna ac mae hefyd am ddechrau swydd newydd yn helpu yn y banc bwyd.

***Mae cael cyfleoedd gwaith yn bwysig iawn.***

9. Mae gofyn 'beth wyt ti eisiau bod pan ti'n tyfu i fyny', breuddwydio am y gwaith y gallwn ei wneud, a'r math o ddyfodol y gellir ei gael yn rhan bwysig o dyfu i fyny. Ond i bobl efo anabledd dysgu, yn cynnwys oedolion gydag awtistiaeth, mae llawer yn methu allan ar yr hawl i gael gyrfa, a'r rhwydweithiau cymdeithasol ehangach, gwell iechyd emosiynol a chorfforol a mwy o annibyniaeth sy'n dod o gael swydd.
10. Cydnabyddir fod datblygu cyfleoedd cyflogaeth yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth, ac yn faes sydd angen gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol. Yn amlwg mae potensial i ehangu cyfleoedd cyflogaeth, ond mae angen cryn dipyn o waith i gyflawni'r deilliannau o ddatblygu opsiynau cyflogaeth prif lif i bobl efo anabledd dysgu ac iddynt gael eu gweld fel aelod gwerthfawr o'r gweithlu gan bob cyflogwr.
11. Mae'r Tîm Anabledd Dysgu yn cydweithio'n agos gyda thîm OPUS er mwyn adnabod cyfleoedd dilyniant addas i unigolion, ynghyd â gwaith allan yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth wedi adnabod 60 o oedolion a fyddai'n gallu elwa o gefnogaeth gan 'job coach'. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ail-asesu rhai unigolion mewn dull sy'n adnabod eu cryfderau (strength based assessment) ac yna edrych ar gyfleoedd i'r rhai mwyaf abl gael gwaith. Bydd angen datblygu cyfleoedd ystyrion ar gyfer yr unigolion hynny efo anghenion cymhleth hefyd, ac mae cyfle yma i wneud cyswllt efo'r gofyniad i alluogi pobl i gyfrannu i'w cymunedau.
12. Mae 'Hwb Cymunedol', wedi cael ei sefydlu yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon. Fe fydd yn darparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant i oedolion efo anabledd dysgu i ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol, ynghyd a darparu gwasanaeth newydd i'r gymuned ehangach a gwella llesiant y gymuned leol. Mae gwaith ar y gweill hefyd i drefnu ystod o weithgareddau cymunedol o gwmpas y caffi newydd, yn seiliedig ar anghenion y gymuned leol. Galluogwyd y gwaith yma drwy dderbyn arian gan Lywodraeth Cymru.
13. Y nod i'r dyfodol yw datblygu cyfleoedd gyflogaeth a hybiau cymunedol ar draws y Sir, gyda dyluniad pedwar hwb cymunedol drwy grant gan y Cynlluniau ar y gweill dros y tair blynedd nesaf.

***Achos Dau***

Cawsai Mr B ei adnabod fel rhywun oedd yn 'rhedeg i ffwrdd' yn rheolaidd. Erbyn hyn dywed ei fam mai'r dyddiau y mae'n gweithio yn y siop yw'r dyddiau pan fo eisiau codi o'r gwely. Roedd yn arfer bod yn berson oedd wedi ymddieithrio, ond yr hyn roedd ei angen oedd cyfrifoldeb a swydd. Bellach, mae'n gweithio mewn siop gaiff ei rhedeg gan ein darparwr, gan helpu cwsmeriaid a gosod nwyddau allan iddynt a threfnu popeth yn daclus a destlus yn y siop. Mae ei ymddygiad wedi newid gan fod y 'rhedeg i ffwrdd' wedi peidio ac mae'r cwsmeriaid i gyd yn ei adnabod

### *Cymdeithasu a chreu perthnasoedd*

14. Mae clybiau yn bodoli ar draws y Sir sy'n rhoi cyfleoedd i unigolion gydag awtistiaeth i gael eu cefnogi mewn grwpiau. Mae llai o ymyrraeth efo grwpiau fel hyn, mae'n hybu annibyniaeth yr unigolion, yn cynyddu presenoldeb yn y gymuned ac yn newid y ddelwedd sydd gan bobl o waith grŵp (yn hytrach na chefnogaeth 1 i 1).
15. Mae unigolion yn gallu rhannu eu horiau i wneud gweithgareddau mewn grŵp. Mae'r dull yma yn ffordd o ymateb i ynysu a chynnig cyfle i'r unigolion gymdeithasu efo'i gilydd ac eraill a bod yn rhan o'n cymunedau. Mae'r llif gwaith yma'n cyd fynd efo gwaith chefnogaeth weithgar o ran cynnig cyfleoedd i oedolion efo ystod eang o anghenion. Mae'n rhaid gwneud yn siŵr fod y grwpiau cymysg yn dod at ei gilydd yn unol â diddordebau neu sgiliau'r unigolion.
16. Mae allbynnau llesiant y grwpiau yma yn cynnwys hyfforddi a datblygu sgiliau; helpu pobl i fyw yn annibynnol; hyrwyddo cymdeithasu a datblygu unigolion i drïo cyfleoedd hamdden; sicrhau nad ydynt yn cael eu hynysu a chynyddu hunan hyder. Maent hefyd yn datblygu sgiliau a gwybodaeth, megis cadw'n ddiogel, gwybod eu hawliau a datblygu perthnasau. Wrth gwrs, nid yw pawb yn gallu cael eu cefnogi mewn grŵp, ac fe fyddant yn cael yr un cyfleoedd ond gyda chefnogaeth 1 i 1.
17. Mae sawl darpariaeth lwyddiannus eisoes yn bodoli yn y Sir er mwyn i unigolion allu cymdeithasu. Mae'n rhaid sicrhau ein bod yn gallu cynnig gweithgareddau gwerthfawr i'r unigolion ac yn gallu integreiddio'r cyfleoedd yma i'r hyn sy'n digwydd eisoes mewn cymdeithasau.

### *Achos Tri*

Pob Dydd Sadwrn mae darpariaeth fewnol y Cyngor yn cynnal grŵp yng Nghaernarfon rhwng 10:00 - 1:00. Maent yn cyfarfod yn y Ganolfan Hamdden cyn gwasgaru i grwpiau llai yn dibynnu ar y math o weithgaredd maent yn dymuno ei wneud. Mae'r grŵp yn boblogaidd iawn gyda nifer uchel o unigolion yn mynychu. Mae'n gyfle gwych i unigolion gymdeithasu a hefyd ennill profiadau newydd. Mae rhai yn dewis chwaraeon ac eraill yn mwynhau mynd i'r gymuned i siopa a chael cinio allan. Mae cyfleoedd hefyd i wahodd siaradwr gwadd neu gyfle i ddysgu sgil newydd.

Mae Anheddau, darparwr allanol, yn cynnig pob math o grwpiau yn ardal Bangor, maent yn gwneud defnydd o wahanol adeiladau yn y gymuned ac yn cynnig sesiynau dawnsio, cerdd, celf a drama. Yn ogystal mae yna grŵp cerdded pob Dydd Mercher sydd yn agored i bawb ac sy'n boblogaidd iawn. Mae rhai unigolion yn mynd yn annibynnol ac eraill yn derbyn mwy o gefnogaeth yn unol â'u hanghenion.

Mae yna amryw o grwpiau coginio yn cael eu cynnal ar y cyd efo Coleg Meirion Dwyfor. Mae'r coleg yn darparu'r tiwtor ac mae'r Tîm Anabledd Dysgu yn darparu cefnogaeth trwy weithwyr cefnogol a gwirfoddolwyr. Mae'n ffordd wych i unigolion ddatblygu sgiliau ac ennill mwy o annibyniaeth.

Eleni am y tro cyntaf fe ddaru ni drefnu ar y cyd efo'r coleg grwpiau/cyrsiau yn ystod gwyliau'r Haf yng Ngholeg Glynllifon. Roedd unigolion yn cael dewis o fynychu grŵp garddio, coginio a gofal anifeiliaid. Roedd y grwpiau ar gyfer unigolion oed trosglwyddo yn bennaf ac fe ddaru ni gyd weithio'n agos efo gwasanaeth Derwen. Roedd yn gyfle arbennig i unigolion gael blasu cyrsiau coleg, ennill cymhwyster a chymdeithasu efo unigolion eraill. Roedd y grwpiau hefyd yn rhoi ysbaid i ofalwyr.

### ***Achos Pedwar***

Esiampl o ddydd ganol oed gydag Awtistiaeth sy'n ei chael yn anodd iawn i gymdeithasu, ond eisiau bod yn rhan o "griw". Ymunodd a'r Grŵp Rygbi yn lleol sy'n cael ei gynnal yn wythnosol ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu. Bu iddo gymryd rhan mewn diwrnod Rygbi ble roedd chwaraewyr Tîm cyntaf y Clwb Rygbi yma yn cyd chwarae gyda'i gilydd, bu iddo sgorio "triple hat-trick"! Mae wrth ei fodd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd na fyddai wedi gallu gwneud heb fod y Grŵp Rygbi yma wedi cael ei sefydlu. Ni fydda'i byth fel arall wedi gallu ymuno a Chlwb Rygbi oherwydd ei anawsterau cyfathrebu, ond drwy gefnogaeth mae wedi cael cyfle i fod yn rhan o dîm a dangos talent mewn maes chwaraeon nad oedd neb yn gwybod bod ganddo.

### ***Llety/Cartref addas***

18. Er mwyn i unigolion allu byw yn annibynnol yn y gymuned, mae cael gwahanol fodolau byw yn y gymuned yn bwysig. I'r rhan fwyaf o bobl, gwelir fod hyn yn fwy priodol na lleoliadau tymor hir mewn cartrefi gofal, gan ei fod yn golygu fod pobl yn denantiaid efo'u hawliau eu hunain ac efo mwy o reolaeth dros eu patrymau byw bob dydd. Mae'n galluogi pobl i fyw mewn tŷ cyffredin fel rhan o'r gymuned.
19. Erbyn hyn, rydym yn symud oddi wrth y defnydd o ofal preswyl i bobl efo anabledd dysgu tuag at wasanaethau tai a chefnogaeth sy'n galluogi unigolion i fyw bywydau mwy

annibynnol. Mae'r symudiad yma hefyd wedi gwneud gwasanaethau yn fwy person canolog gan fod y model yma yn darparu cefnogaeth fwy personol i unigolion na gofal preswyl. Mae hefyd yn golygu fod unigolion yn byw ac yn cymryd rhan yn eu cymunedau lleol. Mae adnabod tai addas yn lleol yn her, rydym yn parhau i ymchwilio i opsiynau tai amgen efo budd-ddeiliaid allweddol y Gwasanaeth Tai er mwyn gweithio efo'n gilydd i ddod o hyd i ddatrysiadau tai i bobl efo anabledd dysgu. Fe all hyn gynnwys gwell dyluniadau ac addasiadau i eiddo cyfredol a dysgu oddi wrth arfer da a phrosiectau tai llwyddiannus mewn ardaloedd eraill, megis syniadau am well defnydd o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi annibyniaeth.

### ***Achos Pump***

Mae sefyllfa unigolyn yn gallu newid yn sydyn ac yn aml rydym yn wynebu argyfwng. Hyn yn anodd iawn i reoli ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i wneud cysylltiadau gwahanol er mwyn diwallu anghenion llety unigolion mewn ffordd greadigol. Rydym yn mapio anghenion llety unigolion sy'n cynnwys unigolion oed trosglwyddo, unigolion all-sirol a hefyd unigolion sydd yn byw gyda gofalwyr hyn. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yma er mwyn cynllunio ymlaen.

Roedd Mr C yn byw gyda'i chwaer ond yn dilyn dirywiad yn ei ieched corfforol ac ieched meddwl bu rhaid iddo fynd am driniaeth i'r ysbyty. Roedd y chwaer yn cael hi'n anodd parhau i ofalu am ei brawd ac aeth Mr C i gartref preswyl. Nid oedd y cartref yn gallu ateb ei anghenion cymhleth ac nid oedd yr awyrgylch yn addas, treuliodd gyfnod hir ym Mryn y Neuadd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ystod y cyfnod yma fe wnaeth y Tîm gyd weithio yn agos efo'r Asiantaethau Tai Lleol er mwyn adnabod byngalo addas yn agos i'w chwaer. Yn dilyn addasiadau i'r byngalo a chomisiynu darparwyr preifat i ofalu am Mr C fe wnaeth symud yn nol i'r gymuned. Mae gan Mr C nawr denantiaeth ei hun, mae Mr C yn cael cyswllt rheolaidd gyda'i deulu, mae ei ieched wedi sefydlogi ac mae ef yn mwynhau mynd allan pob dydd i gymdeithasu ac yn mynychu'r Ganolfan Ddydd unwaith yr wythnos. Mae'r cynllun cefnogaeth yn cael ei ariannu ar y cyd efo'r Gwasanaeth Iechyd ac rydym yn monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y lleoliad yn llwyddo.

Rydym yn gweithio yn agos efo landlord preifat sydd yn berchen ar fflatiau a thai yn yr ardal. Rydym wedi cefnogi unigolion i gael tenantiaeth eu hunain ac yn dilyn asesiad o angen wedi trefnu cefnogaeth iddynt trwy'r grant Cefnogi Pobl. Mae yna enghraifft o dri unigolyn ifanc sydd wedi cael tenantiaeth yng Nghaernarfon gan yr un landlord. Mae'r landlord wedi bod yn hyblyg iawn ac rydym wedi lleihau'r gefnogaeth sydd yn dangos cynnydd yn sgiliau'r unigolion i fyw yn annibynnol. Mae lleoliad y fflatiau yn ynghanol tref yn ateb anghenion yr unigolion ac yn gwneud hi'n haws iddynt ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus a mynychu eu lleoliadau gwaith.

Mae yna sawl enghraifft lwyddiannus o Dai a Chefnogaeth yn y gymuned. Yn ddiweddar mae Antur Waunfawr wedi adeiladu tai yn agos i'w gilydd ar un safle. Mae'r model yma wedi caniatâi i sawl unigolyn gael tenantiaeth a chefnogaeth yn ddibynnol ar eu hangen. Mae'n rhoi mwy o annibyniaeth i rai unigolion gan eu bod yn gallu cael cyfnodau eu hunain ond cael mynediad i gefnogaeth os oes angen.

## **CRYNODEB**

Rydym yn cyd-weithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn adnabod ystod eang o wasanaethau a chyfleoedd er mwyn cyfarch ystod eang o anghenion oedolion gydag awtistiaeth. Nid ydym yn cyflogi swyddog awtistiaeth yn uniongyrchol, yn hytrach y nod yw edrych ar holl anghenion yr oedolion rydym yn ei wasanaethau ar draws Gwynedd ac ymateb i'w anghenion mewn modd 'bespoke', creadigol a personol canolog. Mae'n bwysig fod pob swyddog ar draws y Gwasanaeth yn datblygu'r sgiliau a'r arbenigedd i weithio gydag oedolion ac ystod eang o anghenion, yn cynnwys awtistiaeth. Bwriad y Gwasanaeth yw datblygu tîm ataliol o fis Ebrill 2019 fel bod tîm ataliol a thîm anghenion cymhleth i weithio ar draws y gwasanaeth er mwyn cefnogi oedolion gydag awtistiaeth.